| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **BWRDD Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **17fed o Chwefror 2009** |
| **TEITL** | **Strategaeth Ariannol – Proses Blaenoriaethau Adnoddau Bidiau Refeniw a Chyfalaf 2009/10 – 2011/12** |
| **PWRPAS** | **Cytuno'r argymhellion mewn perthynas â'r bidiau i'w cyflwyno i'r Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r argymhellion mewn perthynas â'r bidiau refeniw a chyfalaf i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 26ain o Chwefror.** |
| **AWDUR** | **Geraint George, Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |

## 1. Cefndir

Pwrpas y papur hwn yw adrodd ar ganlyniad y broses o ddadansoddi a blaenoriaethu bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2009/10.

Yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes mae'r bidiau wedi eu hadnabod gan y gwasanaethau wrth iddynt ystyried eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y cyfnod 2009/10 – 2011/12.

Eto eleni, yn wyneb y sefyllfa ariannol ddychrynllyd o heriol, gwahoddwyd bidiau o dan y **categori anorfod** yn unig, sef gwariant anorfod i gadw gwasanaeth ar ei lefel bresennol ac ymateb i ofynion deddfwriaethol newydd sylweddol.

'Roedd cyfanswm y bidiau gwreiddiol a dderbyniwyd fel a ganlyn:

| | | |
|---|---|---|
| Bidiau Cyfalaf | £6,346,380 | (rhan helaethaf o'r gofynion wedi eu cyfeirio yn uniongyrchol at y Cynllun Rheoli Asedion) |
| Bidiau Refeniw | £8,859,857 | |

## 2. Y Broses Blaenoriaethu

Amlinellir y prif gamau yn y broses ar gyfer blaenoriaethu'r bidiau:-

- asesiad agoriadol o'r holl fidiau a gyflwynwyd ar y cyd gan y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Fforwm Pennaethiaid Gwasanaeth, er sicrhau mai dim ond bidiau anorfod oedd yn cael ystyriaeth

- yr Uned Polisi a Pherfformiad Corfforaethol, yn seiliedig ar y manylion a gyflwynwyd a thrafodaethau pellach gyda'r gwasanaethau, wedi paratoi argymhellion ac adroddiad drafft o ran blaenoriaethu a

chyllido’r bidiau.  Matrics risg wedi ei ddefnyddio ar gyfer y blaenoriaethu, i asesu’r cyswllt rhwng pa mor angenrheidiol yw i ymateb i risg a’r effaith yng nghyd destun cyfrifoldebau a blaenoriaethau’r Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd.

- argymhellion yr Uned Polisi a Pherfformiad Corfforaethol wedi eu trafod a’u cytuno gan y Fforwm Pennaethiaid Gwasanaeth a’r Tim Rheoli Corfforaethol ar y cyd ar y 19/01/09, a gan y Bwrdd Rheoli Adnoddau ar y 28/01/09.

- yr argymhellion hefyd wedi eu hystyried gan Grwp Busnes y Cyngor yn ei gyfarfod ar yr 2il o Chwefror.

- Bwrdd y Cyngor a’r Cyngor llawn i ystyried a mabwysiadu’r Strategaeth ariannol, y blaenoriaethau a ffynhonnell cyllido yn ei gyfarfodydd ar y 26/02/09.

O ran y bidiau cyfalaf, y Cynllun Rheoli Asedau fydd yn cyfeirio rhan helaeth o wariant i’r dyfodol, fodd bynnag mae amserlen mabwysiadu'r Cynllun Rheoli Asedau yn anelu i gyflwyno i’r Pwyllgor Craffu a’r Bwrdd ym mis Mai 2009, felly mae rhaglen Gyfalaf eleni yn dyrannu adnoddau ar gyfer 2009/10 yn unig (ac eithrio unrhyw ymrwymiadau oedd eisoes wedi eu cytuno ar gyfer 2010/11)

Mae gweddill yr adroddiad yn cyflwyno’r argymhellion a’r wybodaeth gefndirol fel a ganlyn:-

**A.  Bidiau Refeniw.**

Mae’r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) yr argymhellion parthed cyllido’r bidiau – **Atodiad A.**

I grynhoi, mae’r cyfansymiau fel a ganlyn:

| | **2009/10** |
|---|---|
| **Parhaol** | £1,378,677 |
| **Unwaith ac am Byth** | £1,148,115 |
| **Ffynnhonell Arall*** | £1,928,387 |

*Ffynnhonell Arall yn cynnwys Grant, cyllideb y Gwasanaeth, incwm ychwanegol a.y.y.b.

Mae’r matrics risg ar gyfer y bidiau refeniw wedi ei gynnwys yn **Atodiad B.**

Gellir gweld rhestr o’r bidiau refeniw nas gwahoddwyd am ystyriaeth pellach yn dilyn yr asesiad agoriadol yn **Atodiad C.**

**B. Bidiau Cyfalaf.**

Mae'r dogfennau canlynol ynghlwm:

(i) Rhestr o'r ymrwymiadau a wnaed eisoes ar gyfer y cyfnod dan sylw, a'r bidiau a dderbyniwyd – **Atodiad Ch.**

(ii) Argymhellion parthed cyllido'r bidiau, yn dilyn herio gan y Gwasanaeth Polisi a Pherfformiad – **Atodiad D.**

I grynhoi, mae'r cyfansymiau fel a ganlyn mewn perthynas ag elfen bidiau y rhaglen gyfalaf.

| | **2009/10** | **2010/11** |
|---|---|---|
| **Ymrwymiadau** | £7,422,500 | £7,950,000 |
| **Swm a argymhellir** | £3,880,000 | £0 |
| **Cyfanswm** | **£11,302,500** | **£7,950,000** |

Mae'r matrics risg ar gyfer y bidiau cyfalaf wedi ei gynnwys yn **Atodiad Dd.**

Gellir gweld rhestr o'r bidiau cyfalaf nas gwahoddwyd am ystyriaeth pellach yn dilyn yr asesiad agoriadol yn **Atodiad E.**

**3. Argymhelliad.**

**Gofynnir i'r Bwrdd gymeradwyo'r argymhellion mewn perthynas â'r bidiau refeniw a chyfalaf i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 26ain o Chwefror.**

**A. Barn yr Aelod Lleol:-**

---

**B. Barn y Swyddogion Statudol:-**

**1. Prif Weithredwr:-**

"Mae'r argymhellion sydd gerbron wedi bod yn destun gwaith a thrafod manwl ar lefel swyddogion a thrafodaeth yn y Grwp Busnes. Ar yr adeg anodd y mae adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol (Adnoddau) yn cyfeirio ato yn ei bapur ar y Strategaeth Ariannol, mae wedi profi'n anodd pwyso a mesur bidiau'r gwasanaethau wrth iddynt geisio ymateb i'r gofynion sydd arnynt ond mae'r cynigion sydd gerbron yn ceisio sicrhau cysondeb a gweithredu blaenoriaethau'r Cyngor yn y gwariant dan sylw. Bydd y Pwyllgor Craffu hefyd wedi ystyried y cynigion ac adroddir i'r Bwrdd ar unrhyw sylwadau sydd ganddynt."

**2. Swyddog Monitro:-**

Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**3. Prif Swyddog Cyllid:-**

Cadarnhaf fod cyfansymiau'r bidiau refeniw a chyfalaf a argymhellir yma yn gyson efo'r strategaeth ariannol ar gyfer 2009/10 yn adroddiad y Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau, ac yn sail i ddangosyddion y Côd Darbodus mewn adroddiad canlynol. Mae mwyafrif y bidiau refeniw gan y Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ariannu o "ffynhonnell arall", sef drwy arallgyfeirio tanwariant cyfredol o fewn y gyllideb (gweler f'adroddiad ar yr adolygiad 3ydd chwarter o gyllideb refeniw 2008/09). Yn arferol, byddai'r broses amcangyfrifon arferol wedi cwtogi'r gyllideb ar gyfer 2009/10 i'r lefel angenrheidiol er mwyn parhau gyda safon gwasanaeth gyfredol, ond cytunaf gyda'r drefn arfaethedig fel eithriad eleni, gan fod y "bidiau" argymhellir i'w caniatau yn rai hanfodol yng nghyd-destun sefyllfa gyfredol y Gwasanaeth. Er gwybodaeth, golygai'r drefn hyn fod cyfanswm y "bidiau" yn ymddangos yn llai nac y byddai pe bawn wedi cynhaeafu'r tanwariant cyfredol "i'r canol" a caniatau'r "bidiau" yn ol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol "o'r canol". Fodd bynnag, o ganlyniad, os derbynnir yr argymhellion gerbron, nodaf bydd y Cyngor yn cymeradwyo rhai trosglwyddiadau cyllidebol yn y colofnau 'parhaol', 'unwaith ac am byth' a 'ffynhonnell arall' o Atodiad A i adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Polisi a Perfformiad.
Er gwybodaeth eto, mae cyfanswm y "bidiau" cyfalaf yn llawer llai na'r rhaglen gyfalaf llawn (gweler f'adroddiad ar yr adolygiad 3ydd chwarter o raglen gyfalaf 2008/09), sy'n cynnwys nifer o grantiau penodol sylweddol iawn a nifer o gynlluniau sy'n ymrwymiadau o flynyddoedd blaenorol.

Yn gyffredinol, rwy’n hyderus fod y bidiau wedi’u blaenoriaethu yn rhesymegol mewn modd ystyrlon, sydd wedi mesur ac ystyried amrediad eang o anghenion, felly rwy’n cefnogi’r argymhellion ar gyfer 2009/10.

---

**C. Papurau Cefndir**

---

**CH. Goblygiadau Polisi**